**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN / *THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL*** | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I / *REPORT TO*** | PWYLLGOR GWAITH / *THE EXECUTIVE* |
| **DYDDIAD / *DATE*:** | 22 Chwefror 2011 / *22 February 2011* |
| **PWNC / *SUBJECT*:** | Sylwadau Sgriwtini ar y Cynigion ar gyfer Cyllideb 2011/12 *Scrutiny Observations and Feedback on the Budget Proposal 2011/12* |
| **DEILYDD(ION) PORTFFOLIO / *PORTFOLIO HOLDER(S)*:** | Cynghorydd Thomas Jones |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL / *LEAD OFFICER(S)*:** | Bev Symonds<br>Rheolwr Sgriwtini / *Scrutiny Manager* |
| **SWYDDOG CYSWLLT / *CONTACT OFFICER*:** | Carl Thomas (Ffôn/Tel: 2084)<br>Swyddog Cyswllt a Chefnogaeth Sgriwtini / *Scrutiny Link & Support Officer* |

**1. Rheswm/Rhesymau pam fod angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith / *Reason/s why a decision required from the Executive***

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith i adolygu'r adroddiad hwn, ac i gymryd y wybodaeth i ystyriaeth cyn gwneud eu penderfyniadau terfynol ar y Cynnig Gyllidebol 2011/12.

*The Executive is requested to review the contents of the report and to take the information contained herein into consideration prior to making their final decisions on the Budget Proposal 2011/12.*

**2. Crynodeb o'r adroddiad / *Report summary***

Mae'r adroddiad hwn wedi ei lunio ar ran y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, ac mae'n cynnwys sylwadau pob un o'r 5 Pwyllgorau Sgriwtini ar y Cynnig Cyllideb 2011/12.

*This report has been drawn up on behalf of the Corporate Scrutiny Committee, and includes feedback from each of the 5 respective Scrutiny Committees' discussions on the initial budget proposal 2011/12.*

**3. Argymhelliad/Argymhellion a'r rhesymau / *Recommendation/s and reasons***

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith i dderbyn cynnwys yr adroddiad, a nodi'r argymhellion yn Adran 8 a fydd yn cryfhau'r broses sgriwtini ar y gyllideb yn y dyfodol.

*The Executive is requested to accept the contents of the report, and to take note of the recommendations in Section 8 which will strengthen the process of budget scrutiny in the future.*

**4. Opsiynau eraill a'r rheswm/rhesymau dros eu gwrthod / *Other options and reason/s for rejection***

Dim yn berthnasol
*Not Applicable*

**5. Ymgynghori / *Consultation***

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.1 | Cyllid/Adran 151<br>*Finance/Section 151* | ☑ do/*yes* | ☐ naddo/*no* | |
| 5.2 | Swyddog Cyfreithiol/Monitro<br>*Legal/Monitoring Officer* | ☑ do/*yes* | ☐ naddo/*no* | |
| 5.3 | Adnoddau Dynol<br>*Human Resources* | ☐ do/*yes* | ☐ naddo/*no* | ☑ amherth<br>*n/a* |
| 5.4 | Gwasanaethau Eiddo<br>*Property Services* | ☐ do/*yes* | ☐ naddo/*no* | ☑ amherth<br>*n/a* |
| 5.5 | Rhai eraill yr ymgynghorwyd â nhw (yn cynnwys Aelodau)<br>*Others consulted (including Members)* | | | |

**6. Unrhyw faterion Fframwaith Polisi / *Any Policy Framework issues***

Dim yn berthnasol
*Not Applicable*

**7. Papurau cefndirol / *Background papers***

Amryw o papurau ymgynghori Cyllideb 2011/12.
*Various Budget 2011/12 consultation papers.*

**Pennawd yr Adroddiad:** Sylwadau ac Atborth Sgriwtini ar Gynigion Cyllidebol 2011/12

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Paratowyd yr adroddiad hwn ar ran y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol mewn ymateb i'r cynigion cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2011/12.

1.2 Amcan yr adroddiad fydd rhannu'r sylwadau a'r atborth a gafwyd yn dilyn ymgynghori gyda'r holl Bwyllgorau Sgriwtini ym mis Ionawr ac awgrymu meysydd y byddai'r Pwyllgor Gwaith efallai yn dymuno eu hystyried cyn cyflwyno eu cynnig ar gyfer Cyllideb derfynol 2011/12 i'r Cyngor.

## 2.0 Materion ar gyfer Sgriwtini

2.1 Amcan y Pwyllgorau Sgriwtini yw sgriwtineiddio'n fanwl y broses o bennu'r gyllideb gyda'r bwriad o fwydo'n ôl sylwadau ar effeithiolrwydd y broses a gwneud argymhellion os yw hynny'n briodol.

## 3.0 Cefndir

3.1 Ar 23 Tachwedd 2010, ysgrifennodd Gweinidog Llywodraeth y Cynulliad dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Carl Sargeant AC at Arweinyddion Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol yng Nghymru, i gyhoeddi manylion y setliadau refeniw a chyfalaf amodol i Lywodraeth Leol ar gyfer 2011/12 i awdurdodau lleol yng Nghymru.

3.2 Yn ei lythyr, eglurodd y Gweinidog bod y newid yn y grant cymorth refeniw a'r cyllid ar gyfer trethi annomestig yn 2011/12 o gymharu â 2010/11 (yn achos Cymru) yn minws 1.4% ar ôl cymryd trosglwyddiadau i ystyriaeth. Aeth y Gweinidog yn ei flaen i egluro, er mwyn sicrhau fod pob Awdurdod unigol yn derbyn setliad derbyniol, bod trefniant llawr cyllidol wedi'i sefydlu ac na ddylai unrhyw awdurdod dderbyn gostyngiad mewn cyllid o ragor na 1.7%. Yn achos Ynys Môn, roedd hyn yn golygu setliad Cyllid Allanol wedi'i Agregu (wedi addasu ar gyfer trosglwyddiadau) o £93.327m yn 2011/12.

3.3 Dywedodd y Gweinidog bod diogelwch i gyllid addysg wedi cael ei gynnwys yn y setliad a'i fod yn cyfateb i 1% uwchlaw'r cynnydd ar gyfer dyraniad cyllid refeniw Llywodraeth y Cynulliad. Golyga hyn na fyddai cyllidebau'r ysgolion yn gostwng gan fwy na 0.3%.

3.4 Yr un modd, yn achos cyllidebau'r Gwasanaethau Cymdeithasol, cafodd rhywfaint o ddiogelwch ei gynnwys yn y setliad i adlewyrchu'r pwys a roddir ar y maes hwn gan LlCC. Yn wir, ar 17 Tachwedd 2010, eglurodd y Gweinidog dros Fusnes a Chyllideb, Jane Hutt AC, ei bod hi'n arwydd o'r penderfyniadau anodd y bu'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad eu gwneud mai iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yw'r unig feysydd gwasanaeth lle na fydd y gyllideb gyffredinol yn gostwng yn 2011-12.

3.5 Cafodd y setliad refeniw terfynol ar gyfer llywodraeth leol i awdurdodau unedol yng Nghymru ar gyfer 2011/12 ei gyhoeddi gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar 2 Chwefror, 2011. Er bod y

setliad terfynol ar gyfer Ynys Môn rhywfaint yn uwch na'r setliad dros dro sef £93.436m, roedd yn parhau i fod ym minws 1.7%.

3.6 Ynys Môn oedd un o'r 14 o Awdurdodau Unedol yng Nghymru i dderbyn toriad cyllidol o 1.7% ar gyfer 2011/12.

3.7 Mewn termau ariannol, mae'r gostyngiad yn y cyllid a dderbyniwyd gan LICC yn trosi i ffigwr sydd oddeutu £1.6m yn llai ar gyfer 2011/12.

3.8 Yn 2010/11, ac mewn ymateb i Lythyr Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2008-09, cynigiodd y Pwyllgor Gwaith Strategaeth Ariannol Tymor Canol a oedd yn anelu at gefnogi blaenoriaethau strategol y Cyngor. Un o amcanion penodol y Strategaeth oedd cynnal rhywfaint o sefydlogrwydd yn y cynnydd blynyddol yn Nhreth y Cyngor a chynigiwyd codi Treth y Cyngor gan 5% yn 2010/11. Roedd y rhagdybiaethau tymor canol a nodwyd yn y Strategaeth yn golygu codi Treth y Cyngor gan 4% yn y blynyddoedd diweddarach, er y byddai hynny'n cael ei ystyried bob blwyddyn.

3.9 Ar gyfer 2011/12, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cynnig cynnydd o 4.3% yn y Dreth Gyngor. Yn 2010/11, Ynys Môn oedd â'r 4ydd Treth Cyngor Band D isaf yng Nghymru a'r 6ed isaf yn Lloegr a Chymru. Mewn cymhariaeth, roedd Treth y Cyngor ar gyfer eiddo Band D yng Ngwynedd 14.1% yn uwch nag Ynys Môn sef £960.79 y flwyddyn. Er mai Ynys Môn fydd un o'r Awdurdodau rhataf o safbwynt Treth y Cyngor yn 2011/12, mae hyn dod am bris oherwydd mae cyfraddau is yn y pen draw yn golygu bod llai o incwm yn dod i mewn o ganlyniad.

3.10 Mewn adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar Ionawr 2011, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) y byddai incwm Treth y Cyngor yn codi o £24.4m yn 2010/11 i £25.6m yn 2011/12, sef cynnydd o 5%. Roedd hyn oherwydd y byddai 0.7% o incwm ychwanegol yn cael ei gynhyrchu oherwydd bod mwy o eiddo trethadwy ar yr Ynys, gan gryfhau ymhellach gynnig y Pwyllgor Gwaith i godi trethi eiddo Band D gan 4.3%.

3.11 Ar gychwyn ei adroddiad, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid), oherwydd nifer o bwysau mewnol ac allanol ar adnoddau, bod yr Adran Gyllid ychydig ar ei hôl hi gyda pharatoi'r gyllideb. O'r herwydd, cyflwynwyd rhagamcan o'r 'top i lawr' a oedd wedi cael ei ddilysu'n rhannol gan waith a wnaed hyd yr amser hwnnw ar y cyllidebau sefydlog. Roedd y gyllideb sefydlog a gynigiwyd bryd hynny yn dangos mai £122.7m fyddai'r gwariant ragamcanedig yn 2011/12. **Mae'n bwysig nodi, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mai'r Clandriad Rhagdybiedig o'r Gyllideb Sefydlog (dyddiedig 10 Ionawr 2011) yw'r unig wybodaeth sydd wedi cael ei rhyddhau ac o'r herwydd mae'r adroddiad yn seiliedig ar y ffigyrau a ddarparwyd yn y clandriad hwnnw.**

3.12 Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau cyllidebol a gynigir uchod, roedd bwlch cyllidebol o £3.7m yn amlwg rhwng y gyllideb Sefydlog a'r CAA a oedd ar gael yn 2011/12.

## 4.0 Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiaddwy

4.1 Mabwysiadwyd y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy (RhBFf) yn 2010/11 gyda'r nod penodol o sicrhau arbedion o £10m dros gyfnod o 3 blynedd tra'n gwarchod gwasanaethau rheng flaen. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12, nodwyd arbedion cychwynnol o £3.2m ar draws nifer o brosiectau.

4.2 Gellir crynhoi'r RhBFf dan y penawdau isod:-

4.2.1 Effeithlonrwydd, sy'n cynnwys costau rheoli a gweinyddu;

4.2.2 Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau mwy cost effeithiol;

4.2.3 Canolbwyntio ar yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud a bod yn fwy cost effeithiol gyda gwasanaethau dewisol;

4.2.4 Moderneiddio ein ffordd o weithio;

4.2.5 Lleihau gwasanaethau fel y dewis olaf.

4.3 Roedd manylion am yr arbedion dan y RhBFf yn ffurfio rhan o ddogfen y Cyngor ar gyfer ymgynghori gyda'r cyhoedd ac fe'i cefnogwyd gan saith o gyfarfodydd cyhoeddus Hawl i Holi a gynhaliwyd yn ystod Ionawr a Chwefror. Daeth dros 200 o bobl i'r cyfarfodydd, sy'n cyfateb i lai na 1% o drigolion Ynys Môn sy'n 18 oed a hŷn (yn seiliedig ar y ffigwr ar gyfer y boblogaeth breswyl 18 oed a hŷn fel yr oedd ar 30 Mehefin 2009 fel y manylir ar hynny yn *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2011-2012 (Setliad Terfynol - Cynghorau)*).

4.4 Yn y cyfarfod o'r <u>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol</u> ar 3 Chwefror 2011, cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) adroddiad ar y materion a godwyd yn y cyfarfodydd cyhoeddus. Yn yr adroddiad, nodwyd ymatebion y cyhoedd i'r materion a godwyd dan y 5 pennawd y manylir arnynt uchod.

4.5 Er nad yw'r RhBFf ar ei ben ei hun yn ymddangos fel petai wedi pontio'r bwlch cyllidebol o £3.7m, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) a'r Aelod Portffolio i bob un o'r Pwyllgorau Sgriwtini eu bod yn hyderus y byddai'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy yn cyflawni'r arbedion angenrheidiol a amcangyfrifiwyd. Ymhellach, yn y <u>Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo</u> ar 31 Ionawr 2011, eglurodd yr Aelod Portffolio na fydd rhai prosiectau RhBFf yn cyflawni'r arbedion disgwyliedig ond byddai prosiectau eraill yn rhagori ar eu targedau ac o'r herwydd, sicrhau'r cyfanswm amcangyfrifedig o £3.2m mewn arbedion ym mlwyddyn ariannol 2011/12.

## 5.0 Paratoadau Sgriwtini ar gyfer Sgriwtineiddio'r Cynigion ar gyfer Cyllideb 2011/12 a sefydlu a chyflwyno Proses Sgriwtini Ariannol mwy Effeithiol

5.1 Cafodd y papurau ar y cynigion cychwynnol ynglŷn â'r Gyllideb eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 11 Ionawr 2011, a chylchredwyd nifer o bapurau ar y diwrnod na chawsant eu rhannu'n ffurfiol gyda Sgriwtini. Ni chafodd y cynnig ei gyflwyno gerbron unrhyw Bwyllgor Sgriwtini tan 25 Ionawr 2011, pan

gafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol. Yna, cyflwynwyd y cynnig i'r Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol (28 Ionawr 2011), y Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo (31 Ionawr 2011), y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden (1 Chwefror 2011), a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (3 Chwefror 2011), yn y drefn honno. Rhoes yr Aelod Portffolio gyflwyniad llafar i'r holl bwyllgorau gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) (ac eithrio'r Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden, pryd yr oedd yr Aelod Portffolio a'r Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) yn bresennol).

5.2 Ymddengys mai fersiwn gryno oedd y cyflwyniad o'r cyflwyniad a roddwyd i'r sesiynau Hawl i Holi. Rhoes y cefndir i'r setliad dros dro a gyhoeddwyd, cyflwynwyd y gyllideb sefydlog, trafodwyd y Strategaeth Ariannol Tymor Canol a'r cynnydd yn y Dreth Gyngor, a chyfeiriwyd at yr arbedion rhagdybiedig a ddisgwyliwyd o'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy yn 2011/12.

5.3 Gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau i'r Aelod Portffolio a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) ar ddiwedd eu cyflwyniad. Gwelir copi o'r cwestiynau a'r arbedion isod, yn **Atodiad 1**.


5.4 Ar 14 Ionawr 2011, cynhaliwyd gweithdy Sgriwtini Cyllid y cafodd holl Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Pwyllgorau Sgriwtini Ynys Môn wahoddiad iddo ynghyd ag aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

5.5 Aeth 10 o aelodau etholedig i'r gweithdy.

5.6 Prif nod y gweithdy oedd dangos i'r aelodau nad rhywbeth sy'n cael ei wneud unwaith yn unig cyn pennu Treth y Cyngor yw sgriwtini ariannol trwyadl; yn hytrach mae'n broses barhaus sy'n cael ei hadolygu'n gyson drwy'r flwyddyn.

5.7 Eglurwyd yn y gweithdy mai rôl sgriwtini yn y broses ariannol yw dal y Pwyllgor Gwaith yn atebol a sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i sgriwtini fod yn rhan o'r broses o bennu cyllideb o'r cychwyn cyntaf. Wedi dweud hynny, dywedwyd yn glir ar nifer o achlysuron bod sgriwtini ariannol yn y pen draw yn ymwneud â sut y mae'r Cyngor yn gwneud dewisiadau hanfodol o safbwynt dyrannu adnoddau a pha mor dda y mae'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni amcanion polisi. Nid yw ynghylch gwneud i ffigyrau adio i fyny i falansio'r llyfrau.

5.8 Trafodwyd yn y gweithdy, fodel posibl ar gyfer dwyn sgriwtini i mewn i'r broses o bennu'r gyllideb. Roedd y model hwn yn seiliedig yn llac ar fodel tebyg y manylwyd arno yng nghyhoeddiad y Ganolfan Sgriwtini Cyhoeddus 'On The Money – The Scrutiny of Local Government Finance', a dengys sut y gellir dwyn sgriwtini i mewn i'r broses o bennu'r gyllideb a monitro'r broses drwy'r flwyddyn. Dengys y model sut y gall sgriwtini fonitro cynnydd cyllideb y flwyddyn flaenorol a gall, *o gyfnod cynnar iawn*, siapio'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ganlynol.




5.9 Ynghyd â thrafod y model uchod, bu'r gweithdy'n trafod y defnydd o dechnegau cwestiynu effeithiol wrth sgriwtineiddio'r gyllideb. Rhoddwyd i'r aelodau enghreifftiau o gwestiynau agored a threiddgar ac fe'u hanogwyd i feddwl am sut y gallai defnyddio cwestiynau o'r fath wella ansawdd y wybodaeth a gânt mewn ymateb i'w cwestiynau.

5.10 Yn ogystal, rhoddwyd i'r aelodau enghreifftiau o ymarfer gwael wrth gwestiynu gan gynnwys cwestiynau sy'n rhagfarnllyd, cwestiynnau 'double bind' a gwneud datganiadau diderfyn. Gofynnwyd iddynt feddwl ynghylch pa mor hawdd yw syrthio i mewn i'r trap o *ddweud* yn hytrach na *gofyn* a meddwl sut y mae gofyn cwestiynau o'r fath yn llesteirio sgriwtineiddio ariannol effeithiol.

## 6.0 Sylwadau o Sgriwtini ar y Cynigion ar gyfer Cyllideb 2011/12

6.1 Gofynnwyd nifer o gwestiynau ynglŷn â lefel y **cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor.** Er y bydd rhywfaint o wrthwynebiad i'r cynnydd yn y Dreth Gyngor yn anorfod (o du aelodau'r cyhoedd ac aelodau etholedig), roedd y mwyafrif o aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith yn derbyn bod cynnydd uwchlaw lefel chwyddiant yn angenrheidiol i wneud i ffwrdd â'r angen i ddod i hyd i arbedion pellach mewn cyllideb sydd eisoes yn dynn. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynglyn â diffyg manylder y cynnig cychwynnol ac efallai

y bydd sgriwtini â barn wahanol yn wyneb gwybodaeth monitro'r trydydd chwarter – dim tystiolaeth wedi dod i law hyn yma.

6.2 Mae'r **Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy** yn rhan annatod o gynigion cyllidebol eleni ac mae o gymorth i sicrhau cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. O'r herwydd, rhoes yr aelodau gryn sylw i'r mater hwn. Mae'n hanfodol y llwyddir i wneud yr arbedion effeithlonrwydd hyn. Yn unol â 4.5 uchod, gwnaed y pwynt na fydd rhai prosiectau RhBFf efallai yn cyflawni'r lefel o arbedion a ddymunir, ond bydd prosiectau eraill a fyddai'n rhagori ar yr hyn y disgwylir iddynt ei gyflawni.

6.3 Roedd 2 bwynt pwysig i'w codi mewn perthynas â'r uchod: yn y lle cyntaf, mewn perthynas â'r ffaith na fyddai rhai elfennau o'r RhBFf yn cyflawni'r arbedion disgwyliedig, gellid dadlau bod hynny'n arwydd o gynllunio strategol gwael a'i fod yn tanseilio dilysrwydd y rhaglen RhBFf yn ei chyfanrwydd oherwydd nad yw'n cydymffurfio gyda'r amcanion SMART sydd yn cael eu defnyddio'n gyffredinol wrth reoli prosiectau (sef Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Perthnasol ac Amserol); yn ail, dywed yr Adroddiad ar yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol bod *Rheoli perfformiad yn aneffeithiol ac nad oes unrhyw fframwaith rheoli perfformiad clir sy'n cysylltu i mewn i gyflawniad llwyddiannus amcanion cyffredinol y Cyngor.* Wrth ystyried y pwynt uchod, mae hyn yn cryfhau'r angen am i Sgriwtini fod yn rhan o'r broses o fonitro'r gyllideb er mwyn sicrhau y cyflawnir amcanion strategol yr Awdurdod.

6.4 Mewn datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth y Cynulliad dyddiedig 3 Rhagfyr 2010, eglurodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Carl Sergeant AC, mai un o'r ffyrdd mwyaf dilys i awdurdodau lleol fynd i'r afael â sialensiau ariannol oedd trwy gydweithredu gyda'r naill a'r llall i gyflawni gwasanaethau pwysig. Yn ystod y Pwyllgorau Sgriwtini, gofynnodd rhai aelodau a ellid gwneud arbedion pellach drwy **weithio mewn partneriaeth**, gydag awdurdodau lleol neu gyda'r sector preifat. Cefnogir y farn hon ymhellach yn yr adroddiad gwaith a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 3 Chwefror 2010, lle nodwyd bod nifer (o aelodau o'r cyhoedd) *wedi pwysleisio'r angen am well effeithlonrwydd drwy weithio mewn partneriaeth.*

6.5 Cafwyd cryn drafodaeth mewn perthynas â **chyllido addysg**. Yn arbennig felly, cyfeiriwyd at y sylwadau a wnaed yn y Fforwm Ysgolion ar 31 Ionawr, lle gwnaeth penaethiaid y pum ysgol uwchradd ar Ynys Môn ddatganiad cryf y dylai addysg fod yn un o'r prif faterion i'w hystyried ym mlaenoriaethau'r Awdurdod. Ymhellach, cyfeiriwyd at gynnig y Pwyllgor Gwaith i gyllido diswyddiadau yn y sector ysgolion eu hunain trwy gynnig gwasanaeth benthyciadau i'r diben penodol hwn. Eto, cyfeiriwyd at yr ymateb anffafriol a gafwyd pan soniwyd am hyn yn y Fforwm Cyllideb Ysgolion ar 6 Rhagfyr 2010.

6.6 Rhaid nodi nad yw'r cynnig ar gyfer y Gyllideb Gyfalaf wedi cael ei gyflwyno eto ac nid oedd wedi ei gyflwyno i Sgriwtini cyn y gyfres o gyfarfodydd ymgynghori ac o'r herwydd, nid yw wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, byddid yn disgwyl iddi gae ei chynnwys fel rhan o raglen y flwyddyn nesaf ar gyfer sgriwtineiddio'r gyllideb.

## 7.0 Casgliadau

7.1 Mewn perthynas â'r broses o sgriwtineiddio'r cynigion cyllidebol ar gyfer 2011/12, rhaid nodi y bu siomedigaeth fawr gyda'r broses o bennu'r gyllideb hyd yma a mynegodd yr aelodau bryderon ynghylch lefel y tryloywder a'r wybodaeth berthnasol a ddarparwyd ar gyfer aelodau sgriwtini. Roedd y feirniadaeth yn cynnwys diffyg gwybodaeth fanwl ac na chafwyd digon o amser i sgriwtineiddio'n drwyadl oherwydd amseriad y wybodaeth. Yn wir, roedd nifer o'r aelodau nad oeddynt ar y Pwyllgor Gwaith yn anhapus bod rhywfaint o'r wybodaeth ynglŷn â'r cynigion cyllidebol wedi cael ei rhoddi ar y Bwrdd yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 11 Ionawr 2011 (fel y dywedir yn 5.1 uchod) ac nad oeddynt wedi ei chael ymlaen llaw. Mewn perthynas â'r feirniadaeth ynghylch amseriad y wybodaeth a ddarparwyd, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) yn ei adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar 11 Ionawr bod yr Adran Gyllid ar ei hôl hi gyda pharatoi'r gyllideb, er nad yw hyn wedi atal agweddau eraill o'r broses gyllidebol o symud ymlaen. Ymhellach, yn ystod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 3 Chwefror 2011, eglurodd mai'r rheswm am yr oedi gyda'r broses o bennu'r gyllideb oedd oherwydd yr oedi a gafwyd gyda chadarnhau'r setliad o Gaerdydd (er bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) yn awyddus i egluro nad bai LlCC oedd hyn, ac na fyddai'r oedi hwn yn dal i fyny y gyllideb sefydlog). Wedi dweud hynny, nid yw diffyg cyllideb o'r gwaelod i fyny ar sail llinell wrth linell wedi helpu'r broses o sgriwtineiddio'r gyllideb.

7.2 Yn yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol ym mis Gorffennaf 2009, nodir bod *Pwyllgorau Sgriwtini yn ymatebol ac nid yn drwyadl neu'n heriol...(ac) ychydig iawn o gyfraniad a wnaed ganddynt i ddatblygu polisïau.* Yn y cyswllt hwn, gellid dadlau bod proses sgriwtineiddio cyllideb eleni hefyd wedi bod yn ymatebol ac na fydd yn cyfrannu unrhyw beth i'r gwaith o ddatblygu'r gyllideb a hynny oherwydd diffyg gwybodaeth fanwl a'r ffaith y cafwyd y wybodaeth honno'n rhy hwyr.

7.3 Ar nodyn cadarnhaol, bu cynnydd gyda sefydlu proses sgriwtineiddio cyllidebol fwy trwyadl ar gyfer y dyfodol a bydd gweithredu'r model ar gyfer dwyn sgriwtini i mewn i'r broses o sefydlu'r gyllideb fel y caiff ei nodi uchod yn cyfrannu'n anferthol at gyflawni'r nod hwn. Mae sgriwtini cadarn a thrwyadl yn gwella tryloywder ac atebolrwydd.

7.4 Ymhellach, dywed yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol bod y *swyddogaeth Sgriwtini a throsolwg wedi'i chyfyngu'n bennaf ... i gwestiynau arwynebol sydd yn aml yn adlewyrchu diddordebau lleol.* Fel y gwelir o'r cwestiynau sydd ynghlwm yn **Atodiad 1**, mae'r cwestiynau a ofynnwyd gan y Pwyllgor Sgriwtini yn niferus ac yn berthnasol ac yn dangos lefel dealltwriaeth a dyhead i gynyddu a gwella gwybodaeth. Dylid ystyried hyn eto fel tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed gyda'r swyddogaeth sgriwtini yng Nghyngor Sir Ynys Môn er rhaid cyfaddef bod dipyn o ffordd i fynd eto.

## 8.0 Argymhellion

8.1 **Argymhellir** bod Sgriwtini yn cael llawer iawn mwy o gyswllt gyda'r broses o bennu a monitro'r gyllideb, ac y dylid gweithredu ar y model posibl ar gyfer dwyn Sgriwtini i mewn i'r broses o bennu'r gyllideb fel y manylir ar hynny yn 5.6 uchod. **Argymhellir ymhellach**, er mwyn cefnogi hyn (ac er mwyn cefnogi'r maes gwelliant a nodwyd ar dudalen 6 yr Asesiad Corfforaethol Cychwynnol (Medi 2010), sy'n darllen '*Dylai'r Cyngor integreiddio'n well y defnydd o wybodaeth ariannol a pherfformiad er mwyn darparu darlun mwy cynhwysfawr o berfformiad y gwasanaethau)*, bod yr Adran Gyllid yn paratoi adroddiadau misol ar fonitro'r gyllideb, (mewn fformat i'w gytuno arno yn ddiweddarach a gyflwynir i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

8.2 **Argymhellir bod** adroddiadau misol ar gynnydd mewn perthynas â'r arbedion effeithlonrwydd a wneir drwy'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiaddwy ar gael ar gyfer eu sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. **Argymhellir ymhellach** bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei darparu mewn modd amserol i'r Pwyllgor er mwyn sicrhau bod modd rhoi sylw i unrhyw broblemau yn syth.

8.3 **Argymhellir bod** dyddiadau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cael eu halinio'n well gyda dyddiadau'r Pwyllgor Gwaith er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a gyflwynir i'r ddau Bwyllgor yn amserol ac yn berthnasol.

8.4 **Argymhellir bod** y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ffyrdd eraill o ymgynghori gyda'r cyhoedd. Fel a nodwyd yn 4.3 uchod, mynychwyd cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus eleni gan lai na 1% o'r boblogaeth. Felly, er ei bod hi'n bwysig cymryd i ystyriaeth y sylwadau a wnaed yn ystod y cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus, mae'r un mor bwysig i gadw mewn cof y gall dilysrwydd y sylwadau hynny gael eu tanseilio gan ddiffyg ymgysylltiad cyhoeddus yn y broses o bennu'r gyllideb. **Ymhellach, argymhellir** y dylid edrych ar sut y mae'r ymgynghori ar y gyllideb yn cael ei gynnal mewn awdurdodau lleol eraill fel y gallwn ddysgu o arferion gorau.

**Cynghorydd Ieuan Williams,**
**Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol**

*Chwefror 2011*

**Atodiadau**

- **Atodiad 1:** Rhestr o gwestiynau ac atebion o'r amryfal Bwyllgorau Sgriwtini a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2011 a 3 Chwefror 2011.

**Penderfyniadau Perthnasol a wnaed eisoes gan y Cyngor neu'r Bwyllgor Gwaith neu'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol**
Dim penderfyniadau perthnasol blaenorol

**Papurau Cefndir**

- **Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn:** Mai 2002 (Diweddarwyd Mai 2008) (Fersiwn 1.9, 6 Hydref 2010)

- **Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol: Cyngor Sir Ynys Môn:** Swyddfa Archwilio Cymru, Gorffennaf 2009

- **Rhagdybiaethau Poblogaeth Awdurdod Lleol Cymru (yn seiliedig ar 2008): Adroddiad Crynodeb,** Llywodraeth Cynulliad Cymru, © hawlfraint y Goron 2010

- **Llywodraeth Cynulliad Cymru: Cyllideb Ddrafft 2011-2012:** Llywodraeth Cynulliad Cymru, © hawlfraint y Goron 2010

- **Llywodraeth Cynulliad Cymru: Cyllideb Derfynol 2011-2012:** Llywodraeth Cynulliad Cymru, © hawlfraint y Goron 2011

- **Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2011-2012 (Setliad Terfynol – Cynghorau)**

- **Dogfen Ymgynghori Cyhoeddus Cyngor Sir Ynys Môn: Wynebau ein Heriau Ariannol**

- **Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar y Gyllideb Sefydlog,** 11 Ionawr 2011

- **Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar Gyllido Diswyddiadau Gwirfoddol a Gorfodol yn y Sector Ysgolion yng Nghyd-destun Cyllideb 2011-12,** 11 Ionawr 2011

- **Gweithdy Sgriwtini Cyllid**: 14 Ionawr 2011

- **Adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar Ymgynghori Cyhoeddus ar Gynigion Cyllidebol 2011/12,** 3 Chwefror 2011

**Swyddogion Cyswllt:**

Bev Symonds
Rheolydd Sgriwtini
Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau

Carl Thomas
Swyddog Cyswllt a Chefnogaeth Sgriwtini
Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau

# Cyngor Sîr Ynys Môn - Crynodeb Gweithredol

**Pennawd yr Adroddiad**: Sylwadau Sgriwtini ar y Cynnig Gyllideb 2011/12.

Mae'r crynodeb hwn wedi ei baratoi i gefnogi'r adroddiad uchod, sydd wedi ei lunio ar ran y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Mae pob Pwyllgor Sgriwtini wedi cyfarfod rhwng 25 Ionawr a 3 Chwefror i drafod y cynnig cyllidebol a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 11 Ionawr, 2011.

**Treth y Cyngor**
Mewn perthynas â lefel y cynnydd yn Nhreth y Cyngor a gynigwyd, er y bydd rhywfaint o wrthwynebiad i'r cynnydd yn Nhreth y Gyngor, mae'r mwyafrif o aelodau anweithredol yn derbyn bod y cynnydd uchod-chwyddiant yn angenrheidiol i negyddu'r angen i ddod o hyd i arbedion pellach mewn cyllideb dynn yn barod. Er hynny, mynegwyd pryderon nad oedd y cynnig gwreiddiol yn ddigon manwl, ac mae'n bosibl y bydd farn sgriwtini yn wahanol yng ngoleuni'r adroddiad monitro trydydd chwarter, sydd ddim ar gael eto.

**Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy**
Nid oedd unrhyw wrthwynebiad sylweddol i'r prosiectau a gynhwysir yn y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy. Codwyd pryderon a yw'r ffigurau a ddyfynnwyd ar gyfer y gwahanol brosiectau yn realistig ac yn gyraeddadwy. Yr ymateb a dderbyniwyd oedd er na fydd rhai prosiectau yn cyflawni'r lefel o arbedion a ddymunir, byddai prosiectau eraill yn cyflawni mwy na'r swm amcangyfrifwyd. Gellid dadlau bod hyn yn dangos cynllunio strategol gwael, ac yn tanseilio dilysrwydd y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy yn ei chyfanrwydd gan nad yw'n cyd-fynd ag amcanion CRAMP sy'n cael eu defnyddio mewn rheoli prosiectau. Mae’r Adroddiad Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol yn nodi bod y trefniadau rheoli perfformiad yn aneffeithiol ac nid oes fframwaith rheoli perfformiad clir sy’n cysylltu â chyflawni amcanion cyffredinol y Cyngor yn llwyddiannus. Wrth ystyried y pwynt uchod, mae hyn yn cryfhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini i gymryd rhan yn y broses o fonitro'r gyllideb, er mwyn sicrhau bod y nodau strategol yr Awdurdod yn cael eu cyflawni.

**Bylchau yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, ac Arbedion Pellach**
Mae angen adolygu Cyllidebau gwasanaeth sydd wedi cael eu seilio yn hanesyddol yn y dyfodol agos. Ar yr un pryd, mae angen i ni ddod o hyd i fyrddau eraill o wneud arbedion pellach a phontio'r bwlch cyllidol. Un ffordd o wneud hyn yw cydweithio gydag awdurdodau lleol eraill a'r sector preifat i ddarparu gwasanaethau pwysig. Mae'n rhaid monitro’r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy i sicrhau bod yr arbedion a nodwyd yn cael eu darparu. Yn ogystal, mae angen canolbwyntio mwy ar fanteision effeithlonrwydd ynni. Gall arbedion ariannol i'w gwneud o dan y pennawd hwn yn ogystal â lleihau ein hôl troed carbon.

**Diswyddiadau**
Mae'r nifer o swyddi y gellid eu colli fel canlyniad i'r toriadau yn bryder. Awgrymwyd bod y Cyngor yn cynnal adolygiad trylwyr o'r staff asiantaeth a'r staff ymgynghori sy'n cael eu cyflogi. Bellach, mae'n bwysig rhoi mwy o ystyriaeth i'r cynnig a wnaed i'r fforwm ysgolion sy'n ymwneud â'r cynllun benthyca mewnol i dalu am ddiswyddiadau addysg, gan y bydd hyn yn gwneud ysgolion yn fwy atebol am eu cyllideb eu hunain, felly’n dod

â hwy yn unol ag amcanion y Cyngor i wneud rheolwyr adrannol yn fwy atebol am eu cyllideb eu hunain.

**Datganiad i Gloi**
Mae'n anffodus nad yw broses sgriwtini gyllidebol wedi bod mor fanwl ac mor drylwyr ag y gallai eleni. Mae'r diffyg manylder yn y cynnig yn golygu nad oedd llawer i sgriwtineiddio, er bod ffactorau lliniarol tu hwnt i'n rheolaeth. Mae'n rhaid dilyn y broses o sgriwtineiddio a monitro’r gyllideb yn ddisgybledig, i sicrhau nad yw adnoddau ariannol yn cael eu gwastraffu a bod y canlyniadau y maent i fod i ariannu yn cael eu bodloni. Os byddwn yn gweithredu'r model ar gyfer cynnwys sgriwtini yn y broses gosod a monitro'r gyllideb, bydd yn help mawr i'r Pwyllgor Gwaith a'r Adran Gyllid i fonitro perfformiad y gyllideb eleni, ac i helpu i lunio a datblygu'r blaenoriaethau cyllidebol flwyddyn nesaf.

Mae angen nodi nad yw'r cynnig Gyllideb Gyfalaf wedi cael ei gyflwyno, na wedi eu darparu i'r Pwyllgor Craffu cyn y rownd o gyfarfodydd ymgynghori. Felly, mae cael eu heb eu cynnwys yn yr adroddiad hwn. Er hynny, byddem yn disgwyl iddo gael ei gynnwys fel rhan rhaglen sgriwtini cyllidebol y flwyddyn nesaf .

Yn y cyfnod unigryw ariannol i Lywodraeth Leol mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd arloesol i ddarparu gwasanaethau. Ni allwn barhau i dorri swyddi yn y llywodraeth leol heb effeithio ar wasanaethau. Bydd angen i ni fod yn barod i edrych eto ar sut rydym yn strwythuro ein sefydliadau ac i ailfeddwl ein prosesau. Bydd angen i'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig eu hadolygu fel rhan o'r broses sgriwtini newydd.

Cyng. Ieuan Williams
Cadeirydd Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2010/11

Cyngor Sir Ynys Môn

# Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

## Sylwadau ac Atborth Sgriwtini ar y

## Cynigion ar gyfer Cyllideb 2011/12

# Atodiad 1

| PTS Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo 31 Ionawr 31 January 2011 | | |
|---|---|---|
| *Procurement* | | |
| 1 | Yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith dyddiedig 11 Ionawr 2011, dywedwyd bod ***arbedion caffael*** y llwyddwyd i'w gwneud yn 2010/11 yn ***ymwneud yn bennaf â thrafnidiaeth***, a'u bod yn uwch na'r lefel darged o arbedion. ***Pa arbedion eraill wnaed o safbwynt caffael?***<br><br>Lle cawsant eu gwneud? | *Do.*<br><br>*Gwnaed arbedion mewn nifer o feysydd gwahanol. Er enghraifft, mae'r Cyngor bellach yn rhan o Bartneriaeth Caffael Gogledd Cymru. Hefyd, mae fframwaith newydd ar gyfer gwaith gofalwyr ac ymgynghoriaeth adeiladu. Oherwydd bod nifer o fentrau gwahanol, nid yw'n bosibl mesur yr arbedion gwirioneddol o safbwynt gwerth ariannol.* |
| 2 | ***Beth fydd effaith y Strategaeth Gaffael a fydd yn cael ei gweithredu drwy'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy?*** | *Mae'n anodd dweud mewn termau ariannol ond bydd mwy o waith priflif yn dod drwy'r partneriaethau. .* |
| 4 | ***A fydd hyn yn darparu arbedion parhaus i'r Cyngor?*** | *Bydd. Ceir arbedion hefyd ar gontractau cyfnod penodol.* |
| 5 | *Beth yw manteision / anfanteision y strategaeth hon?* | *Mae nifer o wahanol fanteision ac anfanteision i'r strategaeth hon ac efallai y byddai o fudd i'r Pwyllgor hwn adolygu hyn fel rhan o'r Rhaglen Waith os yw'n dymuno.* |
| 6 | Sut fydd y Strategaeth gaffael yn cael ei gwneud yn rhan annatod o Arferion y Cyngor? | *Daw'n rhan o'r ffordd y mae'r Awdurdod yn gwneud pethau. Mae 'Ethos Môn' a 'Rheolydd Môn' yn golygu y bydd rheolwyr yn atebol am reoli eu cyllidebau eu hunain.* |
| 7 | Pa mor gadarn yw'r system ar gyfer monitro arbedion 'Busnes fel Arfer'? | *Mae gwahaniaeth rhwng arbedion caffael ac arbedion Busnes fel Arfer oherwydd caiff yr arbedion BFA eu cynnwys bob amser yn yr arbedion caffael. Rhaid i'r gwahanol adrannau fyw o fewn eu cyllidebau ac o'r herwydd, mae'n creu ymdeimlad o berchenogaeth o'r gyllideb.* |

| | | |
|---|---|---|
| 8 | Sut y daethpwyd i'r ffigwr caffael o £50k a nodir yn y Rhaglen Blaenoriaeth Fforddiadwy. | *Ffigwr crwn ydyw. Mae'r ffigwr yn seiliedig ar farn a phrofiad o'r gorffennol. Mae elfen o amcangyfrif a thybio wastad ynghlwm wrth y gyllideb and gellwn ddefnyddio profiad i siapio'r ffigwr.* |
| 9 | A oes unrhyw ffactorau a allai ein rhwystro rhag cyrraedd y ffigwr hwn? | *Mae caffael yn golygu gwneud arbedion drwy arferion prynu gwell ac o'r herwydd, mae'r ffigwr o £50k yn y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy yn amcangyfrif ceidwadol.* |
| 10 | Beth yw Cynllun B os fethwn ni gyflawni'r arbedion hyn? | *Y cynllun yw i orgynllunio. Bydd rhai elfennau o'r RhBFf yn tanberfformio a bydd eraill yn rhagori ar eu targedau. Y canlyniad terfynol sy'n hollbwysig a sicrhau arbedion o £3.7m yn ystod blwyddyn ariannol 2011/12 yw'r nod.* |
| 11 | Mewn perthynas â'r strategaeth gaffael, gofynnwyd a oedd unrhyw sylw wedi cael ei roddi i'r effaith bosibl ar gyflogaeth leol a'r ffaith y bydd pobl leol yn colli incwm. Ymhellach, gofynnwyd a oedd modd rhannu contractau caffael mawr yn gontractau llai (fel sy'n cael ei wneud eisoes yn Sir Ddinbych ac mewn awdurdodau lleol eraill). | *Mae rhannu contractau yn fater corfforaethol neu'n fater i'r gwasanaethau a gellir gwneud hyn mewn rhai amgylchiadau.* |
| *Ynni* | | |
| 12 | Beth oedd costau ynni yn 2010/11? | *Cyfanswm costau ynni oedd £1.96m am y flwyddyn.* |
| 13 | Sut y rhagamcenir costau ynni ar gyfer y flwyddyn i ddod? | *Cânt eu darogan drwy ddefnyddio rhagamcanion chwyddiant a deialog yn seiliedig ar chwyddiant yn y gorffennol a rhagolygon y farchnad. Ffigyrau cyffredinol ydynt oherwydd mae'n amhosibl darogan y dyfodol.* |
| 14 | Pa mor gadarn gafodd y costau ynni eu monitro yn 2010/11? | *Cafodd Costau Ynni eu monitro'n barhaus fel rhan o'r broses o fonitro'r gyllideb. Yn anffodus, ni fedrai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) ateb y cwestiwn hwnnw. Dywedodd y byddai'n rhaid iddo siarad gyda'r Pennaeth Gwasanaeth (Eiddo) i gael y wybodaeth honno.* |
| 15 | Pa effaith fydd chwyddiant ar brisiau ynni yn ei gael ar gyllideb eleni a sut cafodd hyn | *Mae'n amlwg mai ynni a thanwydd yw un o'r risgiau mwyaf sy'n wynebu unrhyw awdurdod lleol. Mae gwerth y bunt yn gostwng ac mae cost tanwydd yn codi. Mae chwyddiant ar brisiau ynni wedi cael ei ffactora i mewn i'r cynnig, ond mae'n hynod anwadal.* |

| | | |
|---|---|---|
| | ei ffactora i mewn i'r cynnig? | |
| 16 | A ydym wedi cael ein hymrwymo i gontract gyda chyflenwr ynni penodol?<br><br>Os nad ydym, a ydym wedi 'siopa o gwmpas' am y pris gorau? | *Mae gennym nifer o gontractau cydweithio gyda nifer o gyflenwyr gwahanol.*<br><br>*Y Tîm Ynni sy'n gyfrifol am hyn ac mae nhw wastad yn siopa o gwmpas.* |
| 17 | Sut y daethpwyd i'r ffigwr o £17k mewn perthynas ag arbedion ar gyfer 2011/12 yn y RhBFf? | *Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) nad ef oedd noddwr y cynllun ac o'r herwydd, nid ef oedd y person gorau i ofyn y cwestiwn iddo. Wedi dweud hynny, roedd y ffigwr, yn rhannol, i'w briodoli i farn y swyddogion a oedd yn gysylltiedig gyda'r prosiect. Hefyd, rhaid pwysleisio bod angen i adrannau gymryd perchenogaeth o'u cyllidebau.* |
| 18 | A yw'r system ar gyfer monitro a thargedu ynni wedi cael ei sefydlu? | *Ydy* |
| 19 | Pa effaith fydd hyn yn ei gael ar arbedion effeithlonrwydd ynni? | *Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) na fedrai ateb y cwestiwn hwnnw ac y byddai'n rhaid ei gyfeirio i'r Tîm Ynni.* |
| 20 | A yw'r rhestr ddrafft o 15 cynllun posibl ar gyfer arbedion ynni wedi cael ei chadarnhau ac os ydyw, beth yw'r manylion? | *Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) na fedrai ateb y cwestiwn hwnnw ac y byddai'n rhaid ei gyfeirio i'r Tîm Ynni.* |
| 21 | Beth yw/oedd cost Rheoliadau Ecube Oergelloedd / Rhewgelloedd i'r Cyngor a Wal Geudod Llyfrgell Llangefni a sut mae'r rhain wedi effeithio ar yr arbedion gwirioneddol a wnaed yn ystod Blwyddyn 1 / pa effaith fydd hyn yn ei gael ar yr arbedion yn gyffredinol? | *Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) na fedrai ateb y cwestiwn hwnnw ac y byddai'n rhaid ei gyfeirio i'r Tîm Ynni.*<br><br>*Angen swyddoion o'r gwasanaeth i ateb cwestiwn mor fanwl am y gwasanaeth.*<br>*SYLWER : Awgrymwyd y dylid gwahodd swyddogion perthnasol I fynychu* |
| *Eiddo* | | |
| 22 | Beth oedd canlyniad y Panel | *Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) bod y mater hwn eisoes wedi bod i'r Pwyllgor* |

| | | |
|---|---|---|
| | Tasg a Gorffen i Resymoli Eiddo? | *Gwaith, a dylai'r Aelodau fod wedi derbyn copi o'r adroddiad hwn yn barod. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn y dyfodol agos ynglyn â chanlyniad hyn. Roedd y Panel wedi nodi £5m o werthu asedau posibl. Mae'n bwysig nodi mai gwerthiannau cyfalaf yw'r rhain a bod y RhBFf yn targedu refeniw.* |
| 23 | A roddwyd unrhyw ystyriaeth i adleoli gwasanaethau i eiddo arall, mwy cost-effeithiol? | *Do* |
| 24 | A yw'r ffigyrau a ddyfynnir yn y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy yn cymryd i ystyriaeth y pwynt y gall lefel yr arbedion ariannol o'r prosiect hwn ostwng er mwyn ostoi cyfrif ddwywaith os yw rhaglenni eraill hefyd yn gyfrifol am ganfod arbedion? | *Rydym yn ymwybodol o'r perygl y gall hyn ddigwydd ac mae gwaith wrthi'n cael ei wneud i sicrhau nad oes unrhyw achosion o gyfrif ddwywaith yn digwydd.* |
| 25 | Pa effaith fydd hyn yn ei gael ar y gyllideb? | *Fel y soniwyd eisoes, bydd rhai elfennau o'r RhBFf yn tanberfformio tra bydd eraill yn rhagori ar eu targedau. Y canlyniad terfynol sy'n hollbwysig a sicrhau arbedion o £3.7m yn ystod blwyddyn ariannol 2011/12 yw'r nod.* |
| 26 | Pa gyllid allanol sydd ar gael i'r Uned Datblygu Economaidd ac a yw hyn wedi cael ei ffactora i mewn i'r cynigion cyllidebol ar gyfer 2011/12? | *Mae Grantiau Ewropeaidd ar gael i'r UDE. Lle mae grantiau penodol wedi cael eu dyfarnu, maent wedi eu cynnwys yn y gyllideb. Mae bygythiad y gallai'r grantiau hyn gael eu torri neu eu tynnu'n ôl yn gyfan gwbl ond ychydig o wybodaeth sydd ar gael ynglyn â fydd hyn yn digwydd. Oherwydd fod y gyllideb wedi cael ei llunio ar sail cyllideb sefydlog, mae'r sefyllfa mewn perthynas â grantiau'n ansicr iawn. Fodd bynnag, adolygwyd yr holl grantiau penodol. Nid oes unrhyw gynlluniau wrth gefn petai grantiau'n cael eu tynnu'n ôl ac o'r herwydd, gall arwain at golli swyddi. Os yw swydd a gyllidir gan grant yn gwneud gwaith da iawn I'r Cyngor, gall yr adran berthnasol gyflwyno bid i gadw'r swydd a daw'r cyflog ar gyfer y swydd o gyllideb yr adran berthnasol honno.* |
| 27 | Gofynnwyd cwestiwn ynghylch monitro'r gyllideb. | *Dywedodd yr Aelod Portffolio bod cynlluniau i ddechrau adrodd ar y gyllideb yn fisol.* |
| 28 | Gofynnwyd cwestiwn ynghylch staffio'r Trefniant Llafur Uniongyrchol (TLIU) a pham fod lefelau staffio wedi aros yr | *Pan gafodd y TLIU ei sefydlu yn y lle cyntaf, roedd dros 8k o dai ac roedd 3 depo cynnal a chadw yng Nghaergybi, Llannerch-y-medd a'r Gaerwen gydag oddeutu 150 o staff i wneud y gwaith cynnal a chadw. Erbyn hyn, does ond un depo yn y Gaerwen gyda 50 o staff parhaol gan gynnwys staff gweinyddol a phrentisiaid masnachol. Oherwydd bod nifer y tai wedi* |

| | | |
|---|---|---|
| | un fath er bod gennym lai o dai. (SYLWER: eglurwyd nad oedd hyn yn rhan o faes gwaith y pwyllgor hwn).<br><br>**<u>Cafwyd yr ateb ysgrifenedig hwn gan Les Roberts, Uwch Swyddog Cynnal a Chadw, TLIU.</u>** | *gostwng dan 4k, neu 48%, mae nifer staff y TLIU wedi lleihau l'r lefel gyfredol – gostyngiad o 66%. Mae rhai aelodau o'r staff wedi ymddeol yn ddiweddar ac mae llawer o waith wedi cael ei wneud ar y stoc sydd ar ôl, sef SATC gyda'r TLIU yn gwneud 20% o'r gwaith hwnnw yn ychwanegol at y gwaith cynnal a chadw ymatebol o ddydd i ddydd. Nid y gwaith cynnal a chadw ymatebol hwn yw'r unig waith a wna'r TLIU, mae'n gyfrifol hefyd am wneud gwaith ar Gynnal Systemau Nwy, Newid Tenantiaeth, Systemau Tanwydd Solet, Profion Diogelwch ar Gyfarpar Tanwydd Solet, gwaith ailbaentio, gwaith trwsio a gwaith allanol ar dai, gwaith addasu ar gyfer yr anabl, cynnal a chadw'r fflyd gerbydau. Mae rhai o'r rhain yn feysydd arbenigol a rhaid cydymffurfio gyda deddfwriaeth.* |
| 29 | Gofynnwyd cwestiwn am y canran o gwaith cynnal a chadw (llafur-ddwys) sy'n cael ei isgontractio.<br><br>**<u>Cafwyd yr ateb ysgrifenedig hwn gan Les Roberts, Uwch Swyddog Cynnal a Chadw, TLIU.</u>** | *Amcangyfrifir bod 60% o'r gwaith yn cael ei isgontractio ar hyn o bryd a staff y TllU yn gwneud 40%.* |
| 30 | Sut mae'r gyllideb yn cefnogi'r ffatih y disgwylir 18 o longau gwyliau i Gaergybi yr haf hwn a sut fydd modd sicrhau bod mwy o deithwyr yn aros ar yr Ynys? | *Dywedodd yr aelod portfolio oherwydd nad oedd ffigwr ar gyfer arbedion yn y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy ar gyfer Atyniadau Tymor Hwylio i Ymwelwyr, ni ddylai'r toriadau o Gaerdydd gael effaith ar hyn. Mae'r gostyngiadau yng Nghyllideb Refeniw'r Gwasanaethau Hamdden yn ymwneud ag aildrefnu'r strwythur rheoli (o ganlyniad i waith y Grwp Tasg a Gorffen Hamdden).* |

| PTS Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol 25 January 2011 | | |
|---|---|---|
| 1 | Faint o arian wrth gefn sydd gennym? | *£5.8m* |
| 2 | Ydy'r Cyngor wedi ystyried 'gwastraff naturiol' | (**TJ**) *Rydym yn edrych ar oddeutu 50 o swyddi ar draws yr adrannau. Mae nifer o opsiynau wrthi'n cael eu hystyried i adolygu'r gyllideb staffio. Mae trafodaethau'n digwydd ar lefel genedlaethol yng Nghymru ar hyn o bryd mewn perthynas â Thelerau ac Amodau Llywodraeth Leol ac rydym yn disgwyl i ganlyniadau'r trafodaethau hynny lywio'r broses. Mewn perthynas ag Addysg, daw unrhyw dyniadau o'r Gronfa Addysg a bydd hyn yn cael effaith..* (**DEW**) *O'r blaen roedd arian yn dod o gronfa ganolog i dalu am ddiswyddiadau Addysg. Yn anffodus, nid oes arian ar ôl yn y pot hwnnw i barhau i wneud y taliadau hyn. O'r herwydd, awgrymwyd bod yr ysgolion eu hunain yn awr yn talu unrhyw gostau diswyddo ar ffurf benthyciad tymor byr (4 blynedd) – bydd yr arian yn parhau i ddod o'r pot canolog ond bydd yr ysgolion yn ymrwymo i dalu'r arian yn ôl dros gyfnod o 4 blynedd* |
| 3 | Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Diswyddo Gwirfoddol a Diswyddo Gorfodol? A oes gwahaniaeth yn yr arian a fyddai'n daladwy? | (**TJ**) *Dim yn gwybod a oes gwahaniaeth yn yr arian y byddant yn ei gael. Mae'r ysgolion yn rhoi blaenoriaeth i ddiswyddo gwirfoddol. Mae pecyn ymddiswyddo'r Cyngor yn dda iawn o gymharu gydag awdurdodau eraill – tâl am 66 wythnos (gan ddibynnu ar hyd gwasanaeth). Dyma'r gorau yng Nghymru ac o'r herwydd mae angen ei gysoni gyda gweddill y wlad.* *(**SYLWER** mae tâl diswyddo statudol y DU yn daladwy ar ôl 2 flynedd o wasanaeth di-dor ac mae'n dibynnu ar oed a chyflog wythnosol, hyd at swm penodol – wedi codi i £400 o 1 Chwefror 2011. Bydd yr hawlydd yn derbyn 0.5 wythnos o dâl am bob blwyddyn llawn o wasanaeth dan 22 oed, 1 wythnos llawn o dâl am bob blwyddyn llawn o wasanaeth rhwng 22 a 40 a 1.5 wythnos o dâl am bob blwyddyn llawn o wasanaeth dros 41 oed – ffynhonnell : Gwefan yr Adran Waith a Phensiynau).* |
| 4 | A fu rhywfaint o fargeinio rhwng y Dreth Gyngor a delir a'r gwasanaethau a ddarparwyd? | (**TJ**) *Ni chafwyd toriad ariannol o Gaerdydd erioed o'r blaen. Y staff yw'r gost fwyaf I'r awdurdod ac os ydych yn gostwng nifer y staff a gyflogir, yna byddwch yn lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â'u cyflogi. Gall hyn effeithio ar lefel y gwasanaeth er bod cynnal lefelau gwasanaeth yn flaenoriaeth.* |
| Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy | | |
| 5 | Cwestiwn mewn perthynas â RhBfF s41 – Telerau ac Amodau Teithio i Staff dan y Rhaglen Blaenoriaethau | (**DEW**) *Mae'r newid mwyaf yn ymwneud â gostwng y nifer y milltiroedd a hawlir ac y telir amdanynt oherwydd mae goblygiadau treth i hyn. Wrthi'n ymgynghori gyda'r Undeb mewn perthynas â'r mater hwn a materion eraill.* *(**SYLWER** Cyfraddau Cyllid y Wlad ar gyfer teithio busnes yn 2010: Ceir – i bwrpas trethi, 40c am y 10,000 milltir cyntaf o deithio busnes mewn* |

| | | |
|---|---|---|
| | Fforddiadwy | *blwyddyn treth yna 25c am bob milltir ar ôl hynny;* ***Beiciau Modur*** *– 24c am bob milltir o deithio busnes)(Lle mae cyfraddau lwfansau cyflogwyr yn uwch na'r cyfraddau statudol, mae gweithwyr yn agored i dalu cyfraniadau treth incwm neu gyfraniadau YC ar unrhyw swm a delir dros y cyfraddau hyn. Le mae cyfraddau lwfansau'r cyflogwyr yn is neu'r un fath â'r cyfraddau hyn, yna ni fydd defnyddwyr yn agored i dalu cyfraniadau treth neu YC. Mewn achosion lle mae cyfraddau'n is na'r cyfraddau a gymeradwywyd, gall gweithwyr hawlio cymorth treth ar y gwahaniaeth rhwng cyfraddau lwfansau'r cyflogwyr a'r cyfraddau a gymeradwywyd. Fodd bynnag, ni fedr gweithwyr hawliau cymorth treth mwyach ar y sail bod y gost wirioneddol o redeg eu ceir yn uwch na chyfraddau lwfansau eu cyflogwyr. (Ffynhonnell – Gwefan Cyllid y Wlad)* |
| | Yn ogystal, gofynnwyd am eglurhad ar RhBFf S44 – Parcio i Staff a Gynghorwyr dan y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy: | (**TJ**) *Eglurodd y bydd tocyn tymor £100 yn caniatáu i chi barcio yn unrhyw un o feysydd parcio'r cyngor ar yr Ynys. Wrthi'n ymgynghori gyda'r Undeb mewn perthynas â'r mater hwn a materion eraill.* |

| PTS Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol 29 Ionawr | | |
|---|---|---|
| *Hawl i Holi* | | |
| 1 | Beth yw'r ymateb i'r gyllideb arfaethedig yn y sesiynau Hawl I Holi? | *Roedd yr ymatebion yn debyg ond mynegwyd mwy o bryder yn yr ardaloedd gwledig ynghylch pwysigrwydd ysgolion i'r gymuned leol, isadeiledd (cyflwr y ffyrdd ac ati).* |
| 2 | Beth oedd ymateb y cyhoedd i'r bwriad i godi Treth y Cyngor gan 4.3%? | *Rwy'n meddwl bod y rhan fwyaf o'r bobl yn derbyn y cynnydd arfaethedig ond heb unrhyw frwdfrydedd. Rwy'n credu eu bod o'r farn yn gyffredinol bod codi'r dreth yn anorfod oherwydd y sefyllfa ariannol.* |
| *Treth y Cyngor* | | |
| 3 | A yw cynnydd o 4.3% yn Nhreth y Cyngor yn ddigonol? | *O'r hyn yr wyf wedi ei glywed hyd yma, nid wyf yn meddwl y byddai ein cymunedau yn derbyn cynnydd uwch yn Nhreth y Cyngor. Mae dod o hyd I'r arbedion yn 2011-2012 i falansio'r gyllideb yn peri mwy o bryder.* |
| 4 | Faint mwy o refeniw fyddai'n cael ei godi petai Treth y Cyngor yn cynyddu o 4.3% i 4.5%? | *I gychwyn, cofiwch bod LICC wedi dweud na ddylai Treth Gyngor awdurdodau lleol yng Nghymru gynyddu gan fwy na 5%. Nid oes gennyf yr union ffigyrau ynghylch beth fyddai cynnydd o 0.2% yn ei olygu mewn termau ariannol ond rwy'n amcan y byddai oddeutu £50,000 ychwanegol.* |
| 5 | A yw'r Pwyllgor Gwaith yn ceisio dod o hyd i arbedion drwy leihau'r nifer o ymgynghorwyr a staff asiantaeth cyn meddwl am gynyddu Treth y Cyngor neu ddiswyddo staff yn orfodol? | *Edrych ar yr holl opsiynau i arbed arian ond rhaid llenwi rhai swyddi gyda staff asiantaeth oherwydd gallai arwain at feirniadaeth gan reoleiddwyr os nad ydynt ac weithiau, nid yw'r sgiliau arbenigol sydd eu hangen ar gael ond drwy recriwtio pobl o'r tu allan.* |
| *Ysgolion* | | |
| 6 | Beth sy'n digwydd mewn perthynas ag ad-drefnu ysgolion? | *Dim yn gallu symud ymlaen mor gyflym ag y byddem yn ddymuno oherwydd rydym yn disgwyl gair gan LICC ynglyn â'n ceisiadau i adeiladu ysgolion dan y gronfa Ysgolion yr 21ain Ganrif.* |
| *Cydweithio* | | |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | A oes camau'n cael eu cymryd i wneud arbedion drwy gydweithio gyda Gwynedd ar rai gwasanaethau? | *Pob opsiwn yn cael sylw. Llawer o gydweithio'n digwydd gyda Gwynedd ac ar lefel ranbarthol Gogledd Cymru, e.e. teleofal.* |
| 8 | A oes unrhyw un wedi edrych ar a fyddai modd ailasesu at i lawr werth trethadwy eiddo sydd ym mherchenogaeth y Cyngor? Roeddwn yng Nghanolfan Byron (Mona) y diwrnod o'r blaen ac roedd hi'n swnllyd iawn yno oherwydd awyrennau'n hedfan yn isel. Credaf y dylai'r Cynghor ofyn am ostyngiad yn y gwerth trethadwy oherwydd lefelau'r sŵn. | *Dim wedi edrych ar y mater hwn yn benodol.* |
| *Gofal Cartrefl* | | |
| 9 | Sut mae pethau'n mynd mewn perthynas ag opsiynau ar gyfer Gofal Cartref? (Prosiect S6 – Opsiynau ar gyfer Gofal Cartref yn y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy) oherwydd rhoddwyd dyddiad gweithredu o 1 Tachwedd 2010? A oes digon o ddarparwyr allanol ar gael ym Môn i sicrhau'r arbedion hyn? | *Mae'r adolygiad yn mynd yn ei flaen ac rydym yn hyderus y bydd modd gwneud yr arbedion yn 2011-2012. Mae problem oherwydd nifer y darparwyr allanol ond rydym yn fwyfwy hyderus y bydd modd sicrhau'r arbediad hefyd yn y tymor canol/tymor hwy.* |
| 10 | Beth yw'r sefyllfa gyfredol mewn perthynas ag Afallon, Hafan Bryngwran a Biwmares (Prosiect S8 – Canolfannau | *Rydym yn rhagweld y bydd Afallon yn cau erbyn diwedd Mawrth 2011 ac mae datblygiadau'n parhau mewn perthynas â chanolfannau eraill. Bydd yr arbedon yn cael eu sicrhau'n unol â'r disgwyliad.* |

| | | |
|---|---|---|
| | Gofal Dydd r Bobl Hyn yn y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy)? A fydd yr arbedion yn cael eu sicrhau'n unol â'r disgwyliad? | |
| 11 | Mewn perthynas â'r Adolygiad o Ofal Preswyl, mae adroddiad yn cael ei gyflwyno dan eitem 5 ar y rhaglen heddiw ond fedrwch chi ddweud a ydych mewn sefyllfa yn awr r roi amcangyfrif o unrhyw arbedion a ddisgwylir yn codi o'r adolygiad? | *Dim mewn sefyllfa i roi ffigyrau mewn perthynas â'r mater hwn. Bydd argymhelliad ynghylch sut i symud ymlaen gyda'r mater hwn yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn pnawn ma dan eitem 5 ac yna i'r Pwyllgor Gwaith. Daw gwybodaeth bellach i law ynghylch costau/arbedion wrth i'r mater fynd yn ei flaen. Nid yw'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy yn cynnwys ffigwr ynglyn â'r arbedion a amcangyfrifir ar hyn o bryd oherwydd mae'n dibynnu sut bydd y Cyngor yn dymuno symud ymlaen gyda'r mater. Bydd y Pwyllgor yn cael ei ddiweddaru wrth i wybodaeth fanylach ddod I law.* |
| *Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy* | | |
| 12 | A yw pethau'n mynd yn unol â'r disgwyl i arbed £100,000.00 y flwyddyn rhwng 2011/12 o 2013/2014 mewn perthynas ag Ailfodelu Anableddau Dysgu (Prosiect S9 – Ailfodelu Anableddau Dysgu yn y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy)? | *Pethau'n mynd yn unol â'r disgwyl. Mae'r gwasanaeth wedi tanwario ond ni rhagwelir y bydd galw am adnoddau ychwanegol.* |
| 13 | Mewn perthynas â phrosiectau Cymhwysedd, rhagwelir arbedion o £587,000.00 yn 2011/2012 a swm o £250,000.00 yn 2012/2013 a swm o £250,000.00 yn 2013/2014. Ydych chi'n ystyried bod yr arbedion yn realistig? Sut atborth gawsoch chi gan gleientiaid? (Prosiect S10 – | *Mae'r nod o safbwynt arbedion yn realistig ond mae ynghlwm wrth ailfodelu gwasanaethau. Gwneir ymdrech i gadw lefelau trothwy ffioedd yn dderbyniol ond yn hyderus yn dawel y bydd cleientiaid yn derbyn y newidiadau.* |

| | | |
|---|---|---|
| | Meini Prawf Cymhwysedd yn y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy)? | |

| **PTS Addysg a Hamdden 1 Chwefror 2011** | | |
|---|---|---|
| *Staff* | | |
| 1 | A fydd y bwriad i godi ar staff am barcio yn berthnasol i athrawon hefyd? | *O safbwynt y pecyn arbedion mewn perthynas â ffioedd parcio, gellir dadlau bod ysgolion yn endidau ar wahân ac mai mater i gorff llywodraethu'r ysgol unigol fydd penderfyn a ddylid codi am barcio ai peidio.* |
| 2 | Faint o swyddi fydd yn cael eu colli yn y maes addysg eleni? | *Dengys gwaith cychwynnol y bydd oddeutu 18 i 20 o swyddi yn ôl pob tebyg yn cael eu colli yn y sector ysgolion ac mai diswyddiadau gorfodol fydd y rhain. Mae'r swyddi hyn yn ychwanegol at y swyddi sy'n debygol o fynd o weithlu canolog y Cyngor.* |
| 3 | Pwy fydd yn talu costau'r diswyddiadau? A fydd yr ysgolion yn gorfod defnyddio eu cyllidebau? | *Er mwyn cwrdd â chostau'r diswyddiadau, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith y dylid, yn hytrach na rhoi baich y gost ar ysgol unigol, greu benthyciad yn yr Adran i'w dalu'n ôl dros gyfnod o bedair blynedd. Fel hyn, byddai'r sector ysgolion yn ei gyfanrwydd yn ysgwyddo'r baich.* |
| *Tasg a Gorffen* | | |
| 4 | Pa arbedion fydd yn cael eu gwneud o ganlyniad i waith y Panel Tasg a Gorffen Hamdden? | *Mae'r Adran Hamdden wedi nodi arbedion o £300k drwy amrwyio oriau'r gwasanaeth a thrwy resymoli'r strwythurau rheoli ac, yr un modd, mae'r Gwasanaeth Llyfrgell wedi datblygu cynlluniau i wneud arbedion sydd ar hyn o bryd yn arbed llyfrgelloedd unigol.* |
| *Cylliden Addysg* | | |
| 5 | Beth yw lefel y gostyniad a ddisgwylir yn y gyllideb addysg ar gyfer 2011-12? | *Bydd y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2011-12 yn golygu toriad o 3% yng nghylidebau'r ysgolion. Yn ychwanegol at hyn, disgwylir gostyngiad oddeutu 3% yn y cyllid y bydd y sector addysg uwchradd yn ei dderbyn yn uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad.* |
| 6 | Pa gynigion sydd yn eu lle yn yr Adran Addysg i ymdopi gydag unrhyw doriadau | *Mae cynigion yn eu lle ar gyfer pontio'r bwlch cyllido drwy brosiectau arbed lle mae gwaith mawr yn cael ei wneud i adeiladu ar y sylfeini sydd eisoes yn bodoli ar gyfer cydweithio ac i sefydlu trefniadau mwy grymus ar lefel ranbarthol i gefnogi ysgolion.* |

| | | |
|---|---|---|
| | arfaethedig? | *Er y cafwyd oedi gyda symud ymlaen gyda'r rhaglen rhesymoli ysgolion, mae gwaith yn parhau i gael ei wneud yn y cefndir ac mae'r Awdurdod yn awyddus i ymestyn y strategaeth rhesymoli ysgolion i ysgolion gyda llai na 50 o ddisgyblion. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud ar lefel broffesiynol i ddiffinnio addysg chweched dosbarth gyda golwg ar greu model ar gyfer addysg ôl-16 a fydd yn fwy cost-effeithiol.*<br><br>*Mewn perthynas â grantiau arbennig, bwriedir cyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor hwn ym mis Mawrth ar y cynigion i sefydlu gwasanaeth rhanbarthol i gefnogi addysg. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i weld gweithdrefn yn cael eu sefydli sy'n hyrwyddo cydweitho ehangach a bydd y Cynulliad yn cefnogi hyn drwy ddarparu grantiau ar lefel consortiwm yn hytrach nag i awdurdodau unigol. Y cwestiwn wedyn yw sut y bydd y consortiwm yn rhannu adnoddau i gwrdd ag amcanion.* |
| 7 | A fydd arbedion o'r rhaglen rhesymoli ysgolion ar gael i'w defnyddio gan y Gwasanaeth Addysg neu a fyddant yn cael eu hailgyfeirio i gronfa ganolog yn y Cyngor? | *Byddai cyllid refeniw ysgolion yn cael ei gadw gan y gwasanaeth addysg a byddai arian o werthu adeiladu yn cael ei gyfeirio'n ôl i falansau canolog y Cyngor ond gyda'r disgwyliad y byddai'r gwasanaeth addysg yn elwa o hynny.* |

| PTS Corfforaethol 3 Chwefror 2011 | | |
|---|---|---|
| *Staff* | | |
| 1 | Pa ystyriaeth roddwyd i leihau nifer yr ymgynghorwyr a'r staff asiantaeth a gyflogir gan y Cyngor? | *Mae'r Cyngor yn cyflogi Ymgynghorwyr dim ond pan mae angen cyngor arbenigol. Er enghraifft, mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i delerau ac amodau teithio ac i adolygu'r opsiynau gweithio hyblyg, bu'n rhaid cael cyngor cyfreithiol ac AD arbenigol.* |
| 2 | A oes ffordd o sicrhau nad yw'r Cyngor yn cyflogi pobl sydd eisoes yn derbyn pensiwn gan gwmni neu gan lywodraeth leol? | *Yn unol â Rheolau Llywodraeth Leol, ni fedr pobl sy'n derbyn pensiwn ennill mwy o gyflog nag yr oeddynt yn ei ennill o'r blaen. Mewn Cynghorau llai, mae'r rheolau pensiwn yn annog ac yn ei gwneud hi'n hawdd i bobl ymddeol a dychwelyd i weithio ar sail rhan-amser ar yr amod y cyflwynwyd achos busnes llwyddiannus. Ymhellach, rhaid cadw'r ddeddfwriaeth Gwahaniaethu ar sail Oed mewn cof yn hyn o beth.* |
| 3 | Pa waith pellach sydd wedi cael ei wneud ar Arfarnu Swyddi a sut mae hyn yn rhoi sylw i bryderon staff eu bod yn cael llai o gyflog na chydweithwyr mewn awdurdodau eraill sy'n gwneud gwaith tebyg? | *Mae hynod bwysig nodi nad yw'r broses Arfarnu Swyddi yn rhoi sylw i'r gwahaniaeth cyflog rhwng Cynghorau. Mae'r broses yn ymwneud â chyflog teg yn y Cyngor nid cymharu gydag awdurdodau eraill. Ymhellach, os bydd Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn yn cyfuno o ganlyniad i'r Astudiaeth Gwmpasu neu ymyrraeth LlCC, bydd hyn yn fater o bwys i Fôn oherwydd bydd raid cysoni ein cyflogau ni gyda rhai Gwynedd. O gofio mai cyflogau staff yw gwariant mwyaf yr Awdurdod, gallai hyn arwain at ddiswyddiadau pellach.* |
| 4 | Faint o swyddi sydd mewn perygl o ganlyniad i'r toriadau y mae'n rhaid eu gwneud? | *50 o swyddi mewn perygl ar hyn o bryd. Mae 25 aelod o staff mewn swyddi a gefnogir gyda grantiau a fydd mewn perygl oherwydd bod y grantiau'n rhedeg allan a bydd staff eraill yn cael eu heffeithio gan yr OMR a'r Adolygiad Hamdden. Yn yr hinsawdd bresennol, mae angen lleihau costau rheoli heb ostwng lefelau gwasanaeth ac mae sgôp i gyflawni hyn. Un ffordd o wneud hyn yw dileu swyddi gweigion (er mae'n anodd dweud yn bendant a fydd y* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *swyddi gweigion a ddilëir yn ychwanegol at y 50 o ddiswyddiadau a ddisgwylir). Ymhellach, mae'n bwysig edrych ar wella lefelau adleoli. Mae'n well buddsoddi i hyfforddi person i wneud swydd newydd yn hytrach na'i ddiswyddo. Ar ôl dweud hynny, po fwyaf arbenigol yw'r gwaith y mae'r person yn ei wneud, anodda'n y byd fydd i'w adleoli. Yn olaf, mae'r ddeddfwriaeth gwahaniaethu ar sail oed yn golygu y daw'n gynyddol anodd i adael i staff fynd fel hyn. Yn anorfod, bydd pobl sy'n 'disgwyl am becyn', fodd bynnag, nid oes pecyn ar gael ar hyn o bryd ac mae'n annhebygol y bydd pecyn yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu, yn y lle cyntaf, y bydd hi'n fwy cost-effeithiol i ddiswyddo staff sydd ddim wedi bod hefo'r awdurdod mor hir oherwydd ni fydd eu pecyn diswyddo mor ddrud; yn ail, mae llai o sgôp am 'wastraff naturiol' a llai o gyfle i adleoli staff i swyddi eraill. Hefyd, gellid ystyried ei bod hi'n annheg (ac nid yn gost-effeithiol bod pobl yn cael pensiwn a thâl diswyddo yn 56 oed ond dim ond tâl diswyddo yn 53 oed.)* |
| 5 | Beth yw'r gyllideb dan Buddsoddi i Arbed? | *Does dim cyfyngiad ar yr arian sydd ar gael dan 'Buddsoddi i Arbed' er bod yr adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol yn pennu band uchaf i bwrpas benthyca sydd, ar hyn o bryd, yn £1m. Yn erbyn hynny, mae nifer y cynigion yn isel.* |
| 6 | Faint o arian wrth gefn sydd gan y Cyngor a beth yw'r sgôp o safbwynt defnyddio'r arian hwn yn hytrach na diswyddo staff? | *Mae adroddiadau monitro wrthi'n cael eu paratoi a chânt eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn y man. Nodwyd tanwariant posibl ac fe'i rhyddhawyd gan y Pwyllgor Gwaith i bwrpas cynnal a chadw priffyrdd. Penderfynwyd y gellir cario tanwariant o 1% drosodd o fewn y gwasanaeth a dychwelyd unrhyw arian dros ben i'r gronfa ganolog. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) bod gan y Cyngor yr hawl i wario arian o'r cronfeydd wrth gefn ond dylid ystyried yn ofalus cyn gwneud hynny.* |
| | | Chwyddiant |
| 7 | Pa lwfans sydd wedi cael ei wneud ar gyfer chwyddiant o 5% ar fwyd a 3% ar yr holl gyllidebau eraill? | *Oherwydd bod gwerthu y bunt mor isel ar hyn o bryd, mae'n bwysig iawn gor-gynllunio ar gyfer chwyddiant ar fwyd. Mae prisiau bwyd wedi bod yn cynyddu'n raddol ers peth amser ac mae'n bwysig iawn felly goramcan faint o arian gellir ei wario ar fwyd.* |
| 8 | Faint mwy o arian fyddai'n rhaid ei arbed petai Treth y Cyngor yn codi gan 2.5% yn hytrach na'r 4.3% arfaethedig? | *Yn fras, byddai'r ffigwr oddeutu £450k.* |
| 9 | Pam gymerodd hi gymaint o amser i baratoi cynigion cyllidebol 2011/12? | *Achoswyd yr oedi oherwydd mai dim ond ar 2 Chwefror 2011 y derbyniwyd ffigwr y setliad terfynol gan LICC. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) bod yr Adran Gyllid yn gweithio ar glandriad y gyllideb sefydlog ar gyfer y Pwyllgor Gwaith (caiff ei gyflwyno ar 23 Chwefror) ac yn ei dyb o, ni fydd y gyllideb sefydlog yn llawer gwahanol i'r amcangyfrifon* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *cynharach. Mewn ymateb i'r sylwadau ynghylch oedi gyda chyhoeddi'r cynigion cyllidebol, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) y bu'r Llywodraeth Ganolog yn hwyr yn cyflwyno'r ffigyrau i LICC a bod hyn wedi achosi oedi pellach i lawr y lein. Er bod y dasg yn anoddach eleni, ychwanegodd ei fod yn hyderus y byddai'r broses wedi'l chwblhau cyn cyfarfod y Cyngor Sir.* |